**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

Copi at: Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

16 Mai 2024

Annwyl Sarah

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 30 Ebrill yn eich hysbysu bod cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth, 7 Mai, yn anffodus ar y diwrnod hwnnw cawsom wybod gan Lywodraeth y DU bod yn rhaid gohirio'r cyfarfod oherwydd nad oedd Gweinidogion yr Alban ar gael.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael aildrefnu'r cyfarfod cyn gynted â phosibl, ac am i'r sgyrsiau ar lefel swyddogol barhau yn y cyfamser.

Yn anffodus, nid oes dyddiadau wedi'u cynnig eto, ond byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law, unwaith y cytunir ar ddyddiad newydd.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.